Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

# Cyflwr y Sector 2024





# Cyflwyniad

Roedd Cymorth i Ferched Cymru yn falch i weld adduned Llywodraeth y DU i haneru trais yn erbyn menywod a merched. Mae'r ymrwymiad yn gam hollbwysig at gydnabod yr effaith y mae'r epidemig hwn yn ei gael ar fywydau goroeswyr ym mhobman. Mae hyn yn cydweddu'n gadarnhaol gyda strategaeth Llywodraeth Cymru i ddileu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Fodd bynnag, bydd yr adduned yn methu os na roddir ystyriaeth i ddull gweithredu sy'n cynnwys pob profiad byw o drais yn erbyn menywod a merched a chyllid digonol i'w gyflawni. Mae gwir gynnydd cynaliadwy yn galw am ddull systemau cyfan sy'n uno arbenigwyr statudol, anstatudol a thrydydd sector i gefnogi anghenion amlweddog goroeswyr.

Bellach, nid ar ei liniau mae'r sector trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV). Mae'n cael ei wthio i'r ddaear gan system sy'n creu mwy o bwysau nag y mae'n ei leddfu. Mae goroeswyr a gwasanaethau cymorth yn gorfod gwneud eu gorau gyda'r hyn sydd ar ôl o system statudol nad yw wedi'i gynllunio na'i gyllido'n briodol i fynd i'r afael â phroblem VAWDASV.  Mae'r galw'n cynyddu heb unrhyw arwydd ei fod am arafu. Mae goroeswyr yn gorfod llywio drwy systemau cymhleth nad ydyn nhw'n seiliedig ar drawma, sy'n golygu mai'r dewis sydd ganddyn nhw yw penderfynu a ydyn nhw am barhau i geisio cyfiawnder o gwbl.

Yn yr adroddiad Cyflwr y Sector diwethaf, codwyd pryderon am y sefyllfa ariannol roedd goroeswyr a gwasanaethau cymorth yn ei hwynebu. Unwaith eto, rydym ni wedi gweld cyllid nad yw wedi codi'n unol â chwyddiant, diffyg cymorth i sefydliadau arbenigol ac argyfwng tai sy'n gadael menywod a phlant mewn llety anaddas ac yn blocio gwelâu lloches. Heb yr ewyllys ariannol a gwleidyddol i fynd i'r afael â'r materion hyn, bydd yr heriau'n dwysáu a bydd anghenion yn parhau i fod heb eu diwallu.

Mae'r dewisiadau y mae gwasanaethau cymorth yn eu hwynebu'n anoddach bob dydd yn sgil y craffu cynyddol ar gyllidebau statudol.  Mae Llywodraethau ac Awdurdodau Lleol i gyd yn ceisio gwneud toriadau yn eu gwariant eu hunain ac mae parodrwydd newydd i ddweud 'na' wrth wasanaethau cymorth yn cael effaith niweidiol ar oroeswyr. Mae tynhau'r cyllidebau hyn yn cael effaith ddifäol ar y gwasanaethau cymorth, sydd yn aml yn gorfod cyfrannu at y gwaith hwn gyda'u cronfeydd wrth gefn sydd yn prysur ddiflannu.

Mae ansicrwydd diddiwedd o ran cyllid yn golygu bod staff rhyfeddol o angerddol a medrus yn gadael y sector VAWDASV ac yn derbyn contractau mwy sicr. Nid yn unig mae hyn yn ddrud i'r sector mewn ymgyrchoedd recriwtio, ond mae hefyd yn golygu bod sgiliau a gwybodaeth arbenigol yn gadael am byth.

Heb ailwampio sylweddol a gweithio at ddatrysiad cynaliadwy sy'n bodloni anghenion yr holl oroeswyr, mae'r addewid i haneru trais yn erbyn menywod a merched mewn perygl o fethu â chyflawni'r nod. I lwyddo, rhaid i ni weld dull gweithredu Newid sy'n Para[1] sy'n canolbwyntio ar ddulliau sy'n seiliedig ar gryfderau, yn cael eu harwain gan anghenion a'u llywio gan drawma ar draws pob agwedd ar fywyd goroeswyr.



1 Newid sy'n Para : Cymorth i Ferched Cymru

# Cynnwys


Rhwystrau at gael cymorth

Y straen gweinyddol

Cyllid nad yw'n addas i'r diben

System gyfreithiol sy'n peri mwy o drawma

Argyfwng tai heb unrhyw arwydd ei fod yn lleddfu

Dull croestoriadol o fynd i'r afael â VAWDASV

Argymhellion

Casgliad




# Rhwystrau at gael cymorth

Ers pandemig COVID-19, mae gwasanaethau ledled Cymru wedi profi cynnydd yng nghymhlethdod eu hachosion. Mae nifer o ffactorau'n bwydo i hyn, gan gynnwys yr argyfwng costau byw, yr argyfwng tai a'r anhawster cynyddol wrth ddod o hyd i gymorth addas i oroeswyr. Mae'r rhestrau aros yn tyfu'n hirach, sy'n golygu bod goroeswyr yn aros yn hirach i gael y cymorth sydd ei angen.

Mae'r gwasanaethau statudol wedi'u gor-danysgrifio, gyda chraffu manwl ar eu cyllidebau, sy'n golygu bod llawer o'r gwaith sy'n cael ei dorri neu nad oes modd ei gyflawni'n cael ei adael i'r trydydd sector, sydd heb gyllid digonol. Yn ogystal â hyn, mae gwasanaethau eraill sydd i fod i gefnogi goroeswyr yn gosod rhwystrau ar y ffordd gyda diffyg dulliau sy'n cael eu llywio gan drawma mewn gofal iechyd a chymorth tai. Caiff goroeswyr sydd ag anghenion lluosog, er enghraifft cymorth gydag iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau, yn cael eu gadael i lywio drwy ddarpariaeth cymorth anodd ac anghyson.  Gall diffyg dull sy'n cael ei lywio gan drawma hefyd olygu bod cymorth yn cael ei ganslo os yw'r goroeswr yn methu â bod yn bresenol. Ni ddylid cosbi neb am eu profiadau ond mae cael system nad yw'n gallu bod yn hyblyg yn ei gwneud yn fwy anodd i oroeswyr geisio'r math cywir o gymorth. Gall fod amrywiol resymau pam nad yw goroeswr yn mynd i apwyntiad. Byddai dull wedi'i lywio gan drawma yn golygu bod y rheini sy'n cefnogi goroeswr drwy heriau'n gallu gwneud penderfyniadau cefnogol sy'n canolbwyntio ar eu cryfderau a gyda'u hanghenion yn arwain.

Mae comisiynwyr yn aml yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau ddarparu modelau newydd o lety gwasgaru argyfwng i fodloni anghenion goroeswyr sydd ag anghenion lluosog a chroestoriadol. Gall hyn arwain at gynnydd mewn costau a staffio llochesi heb fod unrhyw gyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu. Yn bryderus, pan nad oes modd bodloni'r anghenion hyn oherwydd diffyg cyllid priodol sy'n adlewyrchu difrifoldeb yr hyn y gofynnir amdano, yn aml caiff goroeswyr eu cartrefu ymhell o unrhyw systemau cymorth. Mae nifer o oroeswyr a ddefnyddiodd Linell Gymorth Byw Heb Ofn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi gorfod cael eu catrefu yn Lloegr.

Astudiaeth Achos Llinell Gymorth Byw Heb Ofn 1: Goroeswr yn awyddus i gael cyswllt â'u plant yn y dyfodol ond yn wynebu gorfod cael cartref yn Lloegr oherwydd diffyg cefnogaeth yn lleol ar gyfer cymorth gofal iechyd cyffuriau ac alcohol.

Cyfeirir at yr amser y mae Eiriolwr Llinell Gymorth yn ei dreulio'n siarad ar y ffôn gyda chyswllt fel amser siarad, tra bo'r amser a dreulir yn delio â chamau dilynol, gan gynnwys gwaith papur neu weithredu arall, yn cael ei alw'n amser trin. Yn nodedig eleni, mae cyfartaledd yr amser siarad a'r amser trin wedi cynyddu'n sylweddol, a chredwn fod hyn yn adlewyrchu cymhlethdod y galwadau y mae Eiriolwyr y Llinell Gymorth yn delio gyda nhw. Roedd yr amser trin ar gyfartaledd eleni'n 27:59 munud, a chyfartaledd yr amser siarad oedd 21:01. O'i gymharu â blwyddyn 22-23, roedd hyn yn gynnydd o 45% ar gyfer amser trin a 31% ar gyfer amser siarad.

Mae'r Aelod-Sefydliadau yn fedrus iawn yn eu gallu i ddarparu cymorth a gaiff ei lywio gan drawma, ei seilio ar gryfderau a'i arwain gan anghenion i oroeswyr ond maen nhw'n ei chael yn anodd ymdopi â'r diffyg yn sgil prinder darpariaeth gwasanaeth statudol. Mae Aelod-Sefydliadau'n canfod fod canlyniadau i oroeswyr yn gallu bod yn gyfyngedig oherwydd diffyg ffocws ynghylch partneriaethau amlasiantaethol sy'n galluogi gwasanaethau statudol a gwasanaethau arbenigol i weithio gyda'i gilydd gyda chydnabyddiaeth gydradd. Mae darparwyr lloches yn gyson yn gweithio ar gyllidebau negyddol, sy'n gallu golygu bod gwneud yn iawn am y diffyg hwn yn anodd neu hyd yn oed yn amhosibl. Mae gwasanaethau'n wynebu'r penderfyniad amhosibl o fethu â chefnogi goroeswr o bosibl heb y partneriaethau hanfodol gyda gwasanaethau statudol.

Mae angen i ni symud i ffwrdd o system sy'n ystyried bod goroeswyr yn gymhleth ac yn lle hynny ganolbwyntio ar sut mae adrannau'r llywodraeth yn methu yn eu dyletswydd i ddarparu dull systemau cyfan a fyddai'n osgoi anfon pobl ag anghenion ychwanegol at y trydydd sector. Bydd system sydd eisoes wedi'i sefydlu i gefnogi goroeswyr sy'n wynebu rhwystrau at gael gofal iechyd priodol a chymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol yn golygu bod llai o bwysau ar ddarparwyr gwasanaeth.

> Yn sicr mae galw cynyddol, gydag unigolion ag anfanteision niferus sy'n dod yn fwy cymhleth. Mae angen mwy o amser i'w dreulio gydag unigolion.
>
> \- Dyfyniad gan Aelod

Ers gormod o amser mae'r naratif wedi canolbwyntio ar ddweud mai goroeswyr sy'n gymhleth. Yn realistig, mae'r goroeswyr dan anfantais mewn system nad yw wedi'i sefydlu i gefnogi pob profiad bywyd. Mae goroeswyr yn syrthio rhwng y craciau heb fynediad at wasanaethau sy'n delio gyda natur groestoriadol eu profiadau.

# Y straen gweinyddol

Yn adroddiad Cyflwr y Sector y llynedd,[2] amlygwyd yr angen am ffrydiau cyllid tymor hirach. Rydyn ni'n dal i alw am fodelau cyllid cynaliadwy sy'n cynyddu'n unol â chwyddiant gyda thaliadau ymlaen llaw. Nid yw cyllid tymor byr, lle mae'r cylchoedd yn aml rhwng un neu ddwy flynedd, yn caniatáu ar gyfer cynllunio tymor hir na chynaladwyedd sefydliadol. Yn bryderus, ar ôl i Cymorth i Ferched Cymru gyflwyno cais Rhyddid Gwybodaeth i Lywodraeth Cymru ar hyd cyfartalog prosiectau â chyllid Cyfalaf a Refeniw yn y sector VAWDASV, canfuwyd mai'r cyllid grant a gynigir ar gyfartaledd yw 12 mis yn unig.[3] Mae'n hanfodol fod cylchoedd cyllid hirach yn cael eu cynnig er mwyn sicrhau bod gwasanaethau rheng flaen yn gallu cynllunio ar gyfer y tymor hir. Mae hyn hefyd yn caniatáu ffordd well o ddefnyddio'r cyllid hwnnw.

**Mae 88% o Aelod-Sefydliadau wedi profi cynnydd yn y galw ar eu gwasanaethau.**

Mae gwasanaethau Trais Rhywiol hefyd wedi crybwyll cyllid tymor byr a'r her mae'n ei chyflwyno. Mae hyn hefyd yn wir am wasanaethau gan ac ar gyfer. Disgrifiodd un aelod o'r Fforwm Gweithwyr Rheng Flaen Trais Rhywiol a Cham-fanteisio effaith cyllido swyddi dros y tymor byr ar "recriwtio staff, eu cadw a'r gallu i ddarparu cymorth wedi'i lywio gan drawma". Aeth ymhellach gan ychwanegu y gall hyn gael "effaith niweidiol ar y goroeswr. Yn enwedig gydag achosion o drais rhywiol neu anffurfio organau cenhedlu benywaidd, gan y gall gymryd amser sylweddol i oroeswyr feithrin perthynas gyda gwasanaethau. Erbyn i'r berthynas honno gael ei meithrin, mae'r cyllid wedi dod i ben".

Nododd Aelod-Sefydliadau mai 'Cynaladwyedd Cyllid' yw'r rhwystr mwyaf i gefnogi goroeswyr Cam-fanteisio Rhywiol, gyda diffyg cyllid arbenigol hefyd yn bryder.


Mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau  ymrwymiadau am gyllid hirdymor i alluogi gwasanaethau rheng flaen i gynllunio'n effeithiol ar gyfer y dyfodol. Heb y sicrwydd hwn mae eu gallu i ddarparu cymorth cyson a di-dor i oroeswyr mewn perygl. Rhaid i'r gwasanaethau allu gweithredu gyda'r hyder a ddaw yn sgil sefydlogrwydd a chynaladwyedd ariannol.

2 Welsh Women's Aid State of the Sector 2023-24
3 Cais Rhyddid Gwybodaeth ATISN 20911 – cyllid VAWDASV

Mae gwasanaethau rheng flaen yn dal i aros am gadarnhad o gyllid sy'n hanfodol i'w gwaith. Rydym ni'n gynyddol bryderus am ddyfodol y Gronfa Cymorth Trais, yn enwedig yng ngoleuni'r dyddiad cau arfaethedig ym mis Ebrill 2025. Mae angen i'n haelodau gael sicrwydd pendant ynghylch sefydlogrwydd a pharhad y cyllid hanfodol hwn. Mae'r ansicrwydd yn codi heriau sylweddol i aelod-sefydliadau, sy'n dibynnu'n drwm ar y cymorth hwn i gynnal eu gwasanaethau hanfodol. Ar adeg ysgrifennu hwn, nid yw'r sector VAWDASV wedi cael cadarnhad am barhad cyllid sy'n hanfodol i'w gwaith. Mae hyn yn creu ansicrwydd ychwanegol i staff yn y sector VAWDASV y gallai'r grantiau fod yn cyllido eu rôl. Heb sicrwydd a fydd rolau'n parhau, gallai unigolion benderfynu edrych mewn mannau eraill am sefydlogrwydd swyddi. Nid yn unig mae hyn yn arwain at golli sgiliau a phrofiad, ond gall ail-recriwtio i'r rolau arbenigol hyn fod yn ddrud ac yn anodd.

Mae cylchoedd cyllid byr hefyd yn gosod baich gweinyddol ychwanegol ar wasanaethau. Mae'n cymryd amser i ymgeisio am gyllid ac mae gorfod gwneud hyn yn fwy aml yn gallu bod yn anodd i wasanaethau sy'n gyfyngedig a heb yr amser i ymchwilio, adolygu a chynllunio cynigion cyllid. Nid oes gan bob gwasanaeth unigolion penodol sy'n codi arian a hyd yn oed os oes ganddyn nhw, bydd gan y bobl hynny rolau ehangach na llunio cynigion yn unig, sy'n golygu bod pobl sy'n codi arian, yn debyg i lawer yn y sector, yn cydbwyso nifer o flaenoriaethau sy'n cystadlu. Caiff gwybodaeth am gontractau a grantiau hefyd ei chyflenwi cyn cyfnodau gwyliau sylweddol, sy'n golygu bod llai o staff ar gael i gefnogi'r cynigion hyn neu mae staff yn gorfod penderfynu a ydyn nhw am ganslo eu gwyliau ai peidio.

Cwestiwn 6. Mae gwneud cais am gyllid yn cyflwyno heriau cymhleth i wasanaethau rheng flaen. Rydym eisiau deall sut mae hyn yn effeithio ar eich llwythi gwaith. Pa mor hir yr wythnos mae eich sefydliad yn ei dreulio ar bapur cais am gyllid a gwaith cysylltiedig?




8 Atebwyd / 0 Wedi'i hepgor

Mae newidiadau a chynigion cyllid munud olaf hefyd yn peri straen i'r rheini sy'n gweithio ar y cynigion. Gall tanwariant statudol yn aml fod yn fuddiol gan ddarparu cyllid ychwanegol i'r sector VAWDASV ond yn aml caiff y cynigion hyn eu cyhoeddi ar y funud olaf heb fawr o rybudd. Yn y tanwariant adrannol diwethaf, treuliodd sefydliadau trydydd sector lawer o amser yn dod at ei gilydd mewn partneriaeth i ymgeisio am y cynigion penodol hyn. Ond yna hysbyswyd y sefydliadau gan Lywodraeth Cymru nad oedd y cyllid bellach ar gael. Arweiniodd hyn at wastraff amser ac adnoddau enfawr i'r sefydliadau hynny oedd wedi paratoi ar gyfer y cyllid munud olaf hwn.

Mae llai o gyllid ochr yn ochr â chystadleuaeth ffyrnig yn golygu ei bod yn gynyddol heriol i sicrhau incwm o'r sianeli hyn. Yn ddiweddar datgelodd un cyllidwr gynnydd o 3000% mewn ceisiadau i ddwy o'u rhaglenni ar ôl cyhoeddi y byddai'r rhaglenni wedyn yn cau ar gyfer adolygiad strategaeth. Mae hyn yn golygu nid yn unig bod llwyddiant ceisiadau am gyllid yn teimlo hyd yn oed yn fwy ansicr, ond fel y nodwyd yn flaenorol yn adroddiad Cyflwr y Sector y llynedd, mae hefyd yn golygu bod gwasanaethau yn methu â rhannu arfer gorau gyda'i gilydd.

Mae ffrydiau cyllid yn mynd yn fwy cyfyngedig, gyda chynnydd sylweddol yn y nifer o ymddiriedolaethau a sefydliadau sy'n diosg eu cronfeydd, yn cau fel arall, yn oedi i ailstrwythuro neu'n symud i bolisi o beidio â derbyn ceisiadau digymell. Mae tuedd gynyddol hefyd sy'n golygu bod sefydliadau'n rhoi llai o arian i 'achosion da'.[4] Mae hyn yn effeithio ar wasanaethau cam-fanteisio rhywiol yn benodol gan nad yw'r gwasanaethau cymorth arbenigol hyn wedi'u comisiynu ac yn dibynnu ar gyllidwyr cymunedol. Mae angen cynnwys cam-fanteisio rhywiol fel rhan annatod o gyllid craidd VAWDASV.

Mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau ymrwymiadau cyllid hirdymor i alluogi ein gwasanaethau rheng flaen i gynllunio'n effeithiol ar gyfer y dyfodol. Heb y sicrwydd hwn, mae eu gallu i ddarparu cymorth cyson di-dor i oroeswyr mewn perygl. Rhaid i'n gwasanaethau allu gweithredu gyda'r hyder sy'n dod o sefydlogrwydd a chynaladwyedd ariannol.

4 Are wealthy UK trusts hoarding their charitable donations?

# Cyllid nad yw'n addas i'r diben

Nid yn unig mae ffrydiau cyllid yn gyfyngedig, ond mae'r rheini a gaiff eu rhyddhau yn aml yn or-gymhleth ac yn cynnwys gofynion adrodd dwys. Mae craffu ar y gwaith a wneir o ganlyniad i gyllid llywodraethol yn bwysig, fodd bynnag yn aml caiff ceisiadau afrealistig eu gwneud i sefydliadau trydydd sector am allbynnau cyflenwi o fewn amserlenni penodedig. Yn aml ni fydd y cyllidebau hyn yn adlewyrchu gwir gost cyflenwi'r gwasanaeth nac arbenigedd y sefydliad a'r staff. Yn aml ni chaiff ceisiadau a newidiadau gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU eu cyllido. Er enghraifft mae Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) wedi arwain at faich gweinyddol ychwanegol ar lawer o Aelod-Sefydliadau sy'n darparu llety, heb gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i ddelio gyda'r ddeddfwriaeth newydd.

Nid yw gofynion adrodd gor-gymhleth yn caniatáu i wasanaethau roi darlun llawn o'r gwaith cadarnhaol sy'n cael ei wneud o ganlyniad i gyllid. Nid yw'r gofynion adrodd hyn yn adlewyrchu natur gymhleth y cymorth i oroeswyr a arweinir gan anghenion a'i lywio gan drawma. Hefyd ar hyn o bryd nid yw'n bosibl cario cyllid ymlaen o un flwyddyn i'r nesaf, sy'n golygu bod gwasanaethau'n gorfod gwneud cais am yr un cyllid dro ar ôl tro. Anaml y caiff gwasanaeth ei gyflenwi'n ddi-dor ac yn aml bydd angen newid cynlluniau i adlewyrchu'r realiti hwn, er enghraifft i anghenion defnyddwyr gwasanaeth neu newidiadau eraill. Yn ogystal, mae'n anodd iawn i rai gwasanaethau ddangos canlyniadau mewn ffyrdd y gall cyllid y llywodraeth eu dilysu. Mae gwasanaethau trais rhywiol a gwasanaethau cam-fanteisio wedi bwydo'n ôl nad yw comisiynwyr yn deall yn llawn natur y gwasanaeth a ddarperir. Ceir diffyg dealltwriaeth o werth ymyriadau therapiwtig ar wahân i gwnsela, fel therapi celf a diddordebau a'r rôl y gallant eu chwarae wrth adfer o drawma gan fod y comisiynu wedi canolbwyntio'n drwm ar fodelau cymorth y byddai gwasanaethau iechyd statudol yn eu darparu. Mae'r aelodau a'r partneriaid sy'n arbenigo yn y gwaith hwn yn cyflwyno cymorth sy'n achub bywydau a hoffem weld cyfle iddynt ymestyn eu portffolio o ymyriadau'n ffurfiol i gynnwys mwy o ddulliau amgen y maen nhw'n gwybod y gallant fod yn effeithiol.

Hefyd, gellir cael enghreifftiau o ddefnyddio cyllid yn amhriodol heb adlewyrchu'r nodau a osodir ym mriff y cyllid. Gwerthusiad cyffredinol Llywodraeth y DU ei hun o Gyllid Strydoedd Saffach (SSF) yw nad oes "dim tystiolaeth o effeithiau ag arwyddocâd ystadegol yn sgil cyflenwi SSF3 ar wella canfyddiadau a theimladau o ddiogelwch mewn mannau cyhoeddus".[5] Roedd camerâu cylch cyfyng hefyd wedi'u cynnwys yn 74% o'r ceisiadau. Fodd bynnag, oherwydd heriau o ran caffael,


5 https://www.gov.uk/government/publications/evaluation-of-the-safer-streets-fund-round-3-year-ending-march-2022/evaluation-of-the-safer-streets-fund-round-3-year-ending-march-2022#summary-of-key-findings-implications-and-recommendations

roedd oedi wrth osod y rhain. Er bod rhywfaint o effeithiolrwydd camerâu cylch cyfyng a osodwyd o ganlyniad i gyllid Strydoedd Saffach wedi'i ganmol, mae data'r Coleg Plismona ei hun yn awgrymu nad oes "dim tystiolaeth" fod y camerâu hyn yn effeithiol wrth atal troseddau treisiol.[6]

Rydym ni'n teimlo y gellid defnyddio'r cyllid hwn yn fwy effeithiol pe bai ceisiadau'n cael cefnogaeth sefydliadau arbenigol sy'n gallu cynorthwyo i gynghori ar y ffordd orau i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched. Mae sefydliadau eraill fel EVAW hefyd yn amheus o fuddion camerâu cylch cyfyng yn hytrach na dull ataliol.[7]

Fel arall, dangoswyd bod Hyfforddiant Ymyrryd mewn Sefyllfaoedd Niweidiol yn cael effaith gadarnhaol ar droseddau fel aflonyddu ac ymosod rhywiol.[8] Mae data'n dangos fod pobl yn awyddus i helpu pan fyddan nhw'n dyst i aflonyddu rhywiol yn erbyn menywod a merched ond yn ansicr sut i gynorthwyo'n ddiogel.[9] Gyda mwy o Hyfforddiant Ymyrryd mewn Sefyllfaoedd Niweidiol gallwn arfogi cymunedau i wneud Cymru yn lle mwy diogel i fenywod. Byddai buddsoddi mewn Ymyrraeth Gynnar a phecynnau addysg ac ymwybyddiaeth Atal, fel y rhai a geir yn y gyfres o ymyriadau Newid sy'n Para yn ddefnydd mwy effeithiol o'r cronfeydd hyn i alluogi pawb i fod yn fwy diogel hytrach na dim ond teimlo'n fwy diogel.

6 https://www.college.police.uk/guidance/interventions-reduce-violence-against-women-and-girls-vawg-public-spaces/physical-environment-interventions#:~:text=Strong%20evidence-,CCTV,a%20lesser%20extent%2C%20residential%20areas.
7 https://www.endviolenceagainstwomen.org.uk/report-violence-against-women-and-girls-snapshot-report-2021-22/
8 https://www.breakingthesilence.cam.ac.uk/prevention-support/be-active-bystander#:~:text=Research%20shows%20that%20bystander%20intervention,in%2C%20try%20the%20ABC%20approach.
9 https://phw.nhs.wales/news/a-majority-of-people-in-wales-would-attend-bystander-to-violence-training-if-offered/




I grynhoi, mae angen cynllunio cyllid gyda chydnabyddiaeth mai gwasanaethau arbenigol a goroeswyr yw'r arbenigwyr. Byddai mwy o hyblygrwydd o ran sut y gall y gwasanaethau ddefnyddio'r cyllid yn galluogi dull gweithredu cyson a gaiff ei lywio gan drawma ar gyfer mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched. Bydd cyllid a arweinir gan yr arbenigwyr yn hytrach na llunwyr tendrau llywodraethol yn golygu gwell canlyniadau i oroeswyr.

# System gyfreithiol sy'n peri mwy o drawma

Yn aml mae goroeswyr yn wynebu dewis a fydd defnyddio'r system cyfiawnder troseddol neu'r system cyfiawnder sifil yn fuddiol, a gall y posibilrwydd o wynebu mwy o drawma neu droi eu sefyllfa'n arf yn eu herbyn eu harwain i benderfynu peidio â cheisio cyfiawnder. Mae llawer o oroeswyr yn tynnu'n ôl o'r broses gyfiawnder oherwydd diffyg prosesau wedi'u llywio gan drawma ac amseroedd aros hir.[10] Yn ystadegau diweddaraf Gwasanaeth Erlyn y Goron, mae'n cymryd 24.77 o ddiwrnodau ar gyfartaledd dim ond i gymeradwyo cyhuddiad o gam-drin domestig.

> Mae goroeswyr yn parhau i ddweud bod diffyg ymateb wedi'i lywio gan drawma a dealltwriaeth yn y broses cyfiawnder troseddol. Mae'n dal i fod yn rhy hir, gan achosi gofid ac mae goroeswyr yn dewis tynnu'n ôl.
>
> - Dyfyniad Aelod-Wasanaeth

Mae'n achos pryder fod yr amser mae'n ei gymryd i gymeradwyo cyhuddiad o drais yn erbyn oedolyn yn 129.9 diwrnod, sy'n gynnydd o bum diwrnod ers y llynedd.[11] Mae hyn eisoes ar ôl y cyfartaledd o 346 diwrnod mae'n ei gymryd i'r heddlu gyhuddo yn y lle cyntaf.[12] Mae'r un adroddiad yn nodi cynnydd o 21.6% yn y nifer o oroeswyr sy'n tynnu'n ôl o'r broses cyfiawnder troseddol yn llwyr. Ni cheir euogfarn yn 40.9% o'r holl achosion o dreisio.[13]

Rydym ni'n dal i aros am ystadegau diweddaraf Llywodraeth y DU ar ôl-groniadau llys penodol, fodd bynnag ar ddiwedd 2024, roedd 27% o achosion yn cael eu haildrefnu ar y dydd.[14] Nid yn unig mae hyn yn peri mwy o drawma i'r goroeswyr, ond mae hefyd yn costio amser ac arian i'r goroeswr pan gaiff penderfyniadau munud olaf o'r fath eu gwneud.

Er i Lywodraeth Cymru gyhoeddi adroddiad cynnydd ar gyflenwi cyfiawnder yng Nghymru,[15] mae'n ymddangos fod diffyg diweddariad ar y cynnydd o ran VAWDASV am y flwyddyn 2024. Rydym ni'n aros yn eiddgar am yr adroddiad

10 RCEW - Breaking Point report - March 2023 E4uqKBL.pdf
11 CPS data summary Quarter 1 2024-2025 | The Crown Prosecution Service
12 Criminal justice system overview - CJS Dashboard
13 Rape-Quarterly-Data-Tables-Q1-24-25.xlsx
14 Criminal Justice System - All metrics - CJS Dashboard
15 Delivering Justice for Wales: 2024 progress report | GOV.WALES

cynnydd nesaf ar VAWDASV yng Nghymru. Heb ddata gan Wasanaeth Erlyn y Goron sy'n gwahaniaethu Cymru a Lloegr, gall fod yn anodd asesu canlyniadau goroeswyr sy'n wynebu'r System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru.

Gall rhoi tystiolaeth ac wynebu'r system Cyfiawnder Troseddol fod yn rhyfeddol o anodd i oroeswyr. Yn aml nid yw mesurau arbennig "ar gael i oroeswyr".[16] Ym maniffesto'r llywodraeth Lafur cyn yr etholiad, gwnaed adduned i gyflwyno eiriolwyr cyfreithiol i bob ardal heddlu er mwyn cynorthwyo a chynghori goroeswyr o'r eiliad yr hysbysir am y drosedd hyd at yr achos llys. Mae'n bryder fodd bynnag y bydd y ffynhonnell cyllid ar gyfer hyn yn cael ei thynnu o brosiectau a gyllidir gan y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu sydd eisoes yn cefnogi goroeswyr a gwasanaethau.

Er bod Llywodraeth y DU yn ddiweddar wedi codi'r trothwy o ran pryd y gellid defnyddio nodiadau therapi yn ystod achosion llys am dreisio, adroddodd dau o'r Aelod-Sefydliadau gynnydd mewn ceisiadau cyn yr achos am nodiadau therapi neu gymorth. Mae therapi'n hanfodol i oroeswyr os ydyn nhw'n mynd i allu gweithio drwy eu trawma. Gall datgelu'r nodiadau hyn beri trawma a niwed, a gallai o bosibl olygu bod llawer o oroeswyr yn optio allan o therapi.

Byddai ffocws ar ymyrraeth gynnar ac atal hefyd yn rhoi mwy o gapasiti i'r system gyfreithiol. Byddai dull gweithredu sy'n atal VAWDASV cyn iddo ddigwydd yn golygu bod goroeswyr yn llai tebygol o'i brofi yn y lle cyntaf. I lawer o oroeswyr, mae datgelu cam-drin yn gallu bod yn un o'r pethau mwyaf anodd ei wynebu. Mae mentrau fel 'Newid sy'n Para' sy'n canolbwyntio ar ymateb cymuned gyfan dan arweiniad systemau'n sicrhau bod momentau fel hyn yn gallu digwydd mewn amgylchedd diogel a chefnogol. Er bod rôl hynod o bwysig gan y system gyfiawnder i'w chwarae yn mynd i'r afael â VAWDASV, mae angen i'r ffocws fod ar ei atal rhag digwydd yn y lle cyntaf. Gall Newid sy'n Para a rhaglenni ataliol eraill fel Hyfforddiant Ymyrryd mewn Sefyllfaoedd Niweidiol rymuso cymunedau ledled Cymru i chwarae eu rhan i sicrhau bod VAWDASV yn cael ei ddileu unwaith ac am byth.



16 committees.parliament.uk/oralevidence/14675/pdf/

# Argyfwng tai heb unrhyw arwydd ei fod yn lleddfu

Mae dull system gyfan yn golygu bod polisïau a dyraniadau tai'n cael eu hystyried gyda goroeswyr yn flaenllaw yn y meddwl.

**Mae 88% o'r Aelod-Sefydliadau yn teimlo bod yr argyfwng tai'n effeithio ar y cymorth sydd ar gael i oroeswyr.**

Mae'r diffyg tai sydd ar gael yn cael effaith enfawr ar oroeswyr a darparwyr lloches. Caiff y broblem ei gwaethygu gan y Ddeddf Rhentu Cartrefi. Tra bo gweinyddu trwyddedau a chontractau llochesi'n dal i orfod cael ei gyflawni'n unol â'r Ddeddf Rhentu Cartrefi, mae staff yn gorfod darparu oriau ychwanegol o waith gweinyddol ac mae goroeswyr mewn perygl o gael eu cadw mewn llety argyfwng ar sail hirdymor. Bwriedir llochesi i'w defnyddio dros y tymor byr, mewn argyfwng, ond mae defnyddio'r contractau a roddir dan y Ddeddf Rhentu Cartrefi wedi golygu bod goroeswyr yn aml mewn llety lloches am gyfnod hirach, sydd felly'n cael effaith ar faint o leoedd sydd ar gael.

Mae'r diffyg o ran tai sefydlog digonol i oroeswyr hefyd yn achosi tagfa yn y rhestrau aros. Mae defnyddwyr gwasanaeth lloches yn gorfod aros yn hirach i ddod o hyd i gartrefi.

**Yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, roedd 117 o oroeswyr yng Nghymru mewn lloches am dros chwe mis, yn bennaf oherwydd diffyg llety symud ymlaen.**[17]

> Mae'n dorcalonnus gan fod rhai menywod yn gwneud cymaint o ymdrech i gael llety sefydlog ond dydyn nhw ddim yn gallu ac mae rhai aelodau o staff hefyd yn poeni bod yr awdurdod lleol nawr yn rhoi pwysau ar newid trwyddedau'n gontractau safonol gan ddadlau bod menyw mewn lloches neu dŷ symud ymlaen bellach yn sefydlog. Mae hyn yn peri problem wrth symud menywod o lety lloches neu wasgaru neu symud ymlaen i dai cymdeithasol neu breifat. Mae'r rhenti'n dal i fod yn uchel i rieni neu fenywod sengl sy'n ailadeiladu eu bywydau.
>
> - Dyfyniad gan Aelod

17 Welsh Women's Aid Annual Membership Report 2022-23

Rhaid i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r argyfwng tai ar frys ond nid adeiladu tai newydd yw'r unig ateb. Mae dewisiadau polisi penodol yn ei gwneud yn anoddach i oroeswyr ddod o hyd i lety. Weithiau bydd Awdurdodau Lleol yn ystyried lletya rhywun dim ond os oes ganddyn nhw 'gysylltiad lleol' â'r ardal er bod hwn yn faes dewisol o ddeddfwriaeth tai y dylid ei hepgor i bobl na ellir yn rhesymol ddisgwyl iddyn nhw ddychwelyd i'w hardal leol oherwydd trais a/neu gam-drin. Er bod rhai goroeswyr yn dymuno aros yn agos at eu cyfeiriad blaenorol, gallai fod yn fanteisiol i eraill gael eu cartrefu ymhellach i ffwrdd. Byddai caniatáu i oroeswyr gael eu catrefu mewn Awdurdodau Lleol heb 'gysylltiad lleol' yn rhoi mwy o hyblygrwydd o fewn y prinder tai. Mae Cymorth i Ferched Cymru yn flaenorol wedi codi pryderon am sut mae'r prawf hwn yn effeithio'n anghymesur ar oroeswyr[18] ac roedd yn galonogol gweld Llywodraeth Cymru yn ystyried ychwanegu eithriadau i'r prawf cysylltiad lleol yn y Papur Gwyn ar roi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru. Fodd bynnag yn y Papur Gwyn diweddaraf ar sicrhau llwybr at dai digonol, gan gynnwys rhenti teg a fforddiadwyedd, mae'n ymddangos bod hyn wedi'i ollwng.

**Mae 87.5% o Aelod-Sefydliadau yn credu bod yr argyfwng tai yn effeithio ar y cymorth sydd ar gael i oroeswyr.**

Mae'r argyfwng tai'n cael effaith sylweddol ar ein goroeswyr.

- Dyfyniad Aelod-Sefydliad

Mae prinder llety symud ymlaen ac mae hyn yn creu tagfa, gan roi dioddefwyr newydd mewn perygl o fethu â manteisio ar loches.

- Dyfyniad Aelod-Sefydliad

Ers cryn amser, mae'r diffyg cymorth sydd ar gael i'r rheini sydd heb hawl i gyllid cyhoeddus wedi cael effaith enfawr ar y gallu i gefnogi a dod o hyd i lety diogel i oroeswyr.

**Mae 75% o Aelod-Sefydliadau'n teimlo eu bod yn methu â chyflenwi cymorth digonol i oroeswyr sydd heb hawl i gyllid cyhoeddus.**

18 https://welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2024/01/WWA-Response-Consultation-on-the-White-Paper-on-Ending-Homelessness-in-Wales.pdf

Mae Cymorth i Ferched Cymru cyn hyn wedi crybwyll diffyg dealltwriaeth a chyflawni dyletswydd y gwasanaethau cymdeithasol dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a diffyg atebolrwydd am y methiant i gyflawni'r dyletswyddau hyn.[19] Nid yw cymorth y gwasanaethau cymdeithasol yn gronfa gyhoeddus at ddibenion mewnfudo, ac ni ddylid gwrthod cymorth yn unig am fod yr unigolyn heb hawl i gyllid cyhoeddus.[20] Dan Adran 35 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolyn os yw'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd neu os yw'n angenrheidiol er mwyn diogelu'r oedolyn rhag cam-drin neu esgeulustod neu'r risg o gam-drin neu esgeulustod.[21] Felly ceir cyfle sylweddol i sicrhau bod goroeswyr heb hawl i gyllid cyhoeddus, sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, yn cael eu gosod mewn llety diogel, yn derbyn cynhaliaeth a chymorth drwy sicrhau bod dyletswyddau'n cael eu cyflawni.[22]

> [Does] dim digon adnoddau ar gyfer staff cymorth ac mae diffyg llety ar gyfer dioddefwyr heb hawl i gyllid cyhoeddus.
>
> \- Dyfyniad gan Aelod

19 MW07 - Welsh Womens Aid and BAWSO.pdf (senedd.wales).
20 https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2020-02/access-to-social-services-and-other-care-and-support-for-destitute-asylum-seekers-with-no-recourse-to-public-funds.pdf - there are very few categories of immigration statuses which are exempt from this support under Schedule 3 of the Nationality, Immigration and Asylum Act 2002.
21 Duty for children is under Section 37 of the Act.
22 MW07 - Welsh Womens Aid and BAWSO.pdf (senedd.wales).

# Dull croestoriadol o fynd i'r afael â VAWDASV

Mae trais yn erbyn menywod a merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithio ar fenywod gyda phob math o brofiad byw. Er mwyn darparu cymorth wedi'i deilwra i oroeswyr, mae'n hanfodol ystyried y mater yn un croestoriadol. Fe wyddom fod haenau lluosog o ormes yn gallu "creu profiadau unigryw o drais yn erbyn menywod a merched".[23] Mae cydnabod pa mor wahanol mae VAWDASV yn effeithio ar unigolion o amrywiaeth eang o brofiadau byw a hunaniaethau'n hanfodol bwysig.

Mae cymorth arbenigol a chymorth sefydliadau gan ac ar gyfer yn hanfodol i ddarparu cymorth sy'n galluogi ac yn dilysu pob agwedd ar hunaniaeth a phrofiad goroeswr. Fodd bynnag mae'r Aelod-Sefydliadau gan ac ar gyfer yn gyson yn adrodd am ddiffyg cyllid ar gyfer darparu'r cymorth croestoriadol hwn. Mae angen i Lywodraethau Cymru a'r DU gydnabod na all goroeswyr gyrchu cefnogaeth gynhwysfawr heb gymorth arbenigol wedi'i deilwra.

Yn debyg i lawer o gymunedau lleiafrifedig, mae pobl anabl dair gwaith yn fwy tebygol o brofi cam-drin yn ystod eu bywydau. Mae 22 o fenywod Byddar mewn perygl o gam-drin domestig bob dydd[24] ac adroddodd 27.5% o oedolion byddar eu bod wedi cael eu cam-drin yn emosiynol yn ystod eu hoes. Mae unrhyw fath o ddatgelu'n anodd i oroeswr, ond pan fydd rhwystrau fel iaith, diffyg hygyrchedd a dealltwriaeth yn cael eu hychwanegu, gall fod bron yn amhosibl. Mae angen i ni sicrhau nad oes rhwystrau pellach yn cael eu gosod o flaen unrhyw oroeswr sy'n ceisio cymorth.

Mae menywod â phrofiad o dlodi'n wynebu heriau ychwanegol wrth geisio cymorth yng nghanol argyfwng costau byw. Dywedodd 77% o weithwyr rheng flaen fod "yr argyfwng costau byw yn rhwystro menywod rhag gadael y rhai sy'n eu cam-drin".[25] Yn aml gall rhwystrau ariannol gael effaith ar allu goroeswr i adael sefyllfa beryglus. Roedd y Gronfa Argyfwng yn sicrhau offer ariannol ychwanegol i lawer o oroeswyr gan gynnwys cyllid penodol ar gyfer gwasanaethau gan ac ar gyfer i oroeswyr Du a lleiafrifedig. Fodd bynnag roedd 25.4% o'r ceisiadau'n cael eu gwrthod oherwydd bod y gronfa eisoes wedi'i defnyddio.[26] Mae hyn yn dangos bod angen sylweddol ar gyfer parhad y gronfa i sicrhau bod goroeswyr yn gallu cyrchu'r adnoddau hanfodol sydd eu hangen. Ar adeg ysgrifennu hwn, er bod Llywodraeth y DU wedi rhyddhau Cyllideb yr Hydref, does dim cadarnhad a fydd y Gronfa Argyfwng yn parhau.

23 The value of intersectionality in understanding violence against women and girls.pdf
24 Domestic Abuse Information and Service Details - SignHealth
25 New data from Refuge warns that cost of living crisis is forcing survivors of domestic abuse to stay with abusive partners.
26 Emergency_fund_evalaution_2023.pdf

Mae goroeswyr o gymunedau ymyledig a lleiafrifoedd ethnig yn aml yn profi rhwystrau ychwanegol wrth geisio cymorth. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi galw am fesurau diogelu pellach ar frys i fenywod mudol yn y DU.[27] Mae diffyg deall yr hawl i gartref diogel a digonol i'r rheini sydd Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus yn aml yn golygu bod goroeswyr mudol yn ansicr ynghylch eu diogelwch. Codwyd hyn yn ein hadroddiad Cyflwr y Sector diwethaf ac rydyn ni'n aros i'r sefyllfa wella.

Hefyd ceir diffyg amlwg o ran 'gwybodaeth a dealltwriaeth o briodas dan orfod, Cam-drin ar sail Anrhydedd, a'r gefnogaeth y gall dioddefwr fod ei hangen ymhlith asiantaethau statudol a chefnogi.[28] Rhaid mynd i'r afael â'r diffyg gwybodaeth parhaus hwn gyda hyfforddiant digonol i alluogi'r holl wasanaethau statudol i gefnogi goroeswyr yn briodol.

> Dyw [plant a phobl ifanc] ddim yn ymddangos fel blaenoriaeth. Mae'n anodd dod o hyd i gyllid ac mae cymhlethdod y galw'n cynyddu ynghyd â niferoedd atgyfeirio
>
> - Dyfyniad gan Aelod
>
> Rydyn ni hefyd yn asesu mwy o achosion risg uchel, cymhleth, ac yn atgyfeirio mwy o bobl ifanc at y gwasanaethau cymdeithasol oherwydd pryderon o ran diogelu
>
> - Dyfyniad gan Aelod

Yn ôl Safe Lives, plant a phobl ifanc sy'n wynebu'r cyfraddau uchaf o drais domestig o blith yr holl grwpiau oedran.[29] Serch hynny, mae diffyg cyllid arbenigol i gefnogi goroeswyr ifanc. Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, roedd 349 o blant ar restrau aros am gymorth. Mae'r Gronfa Plant y mae Cam-drin Domestig wedi Effeithio Arnynt yn dal i fod heb ei chadarnhau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, sy'n golygu bod llawer o wasanaethau yn gorfod gwneud y penderfyniad anodd i gau eu rhestrau aros tan fod y cyllid yn cael ei gadarnhau. Mae diffyg sicrwydd o ran cyllid hefyd yn golygu bod llawer o weithwyr arbenigol plant a phobl ifanc â sgiliau uchel yn gadael i dderbyn contractau mwy sefydlog, yn aml gyda'r sector statudol.

27 Migrant victims of violence against women are in urgent need of further protection, Equality and Human Rights Commission says | Electronic Immigration Network
28 BAWSO, Understanding Forced Marriages Report
29 Safe Young Lives | Young people & domestic abuse - SafeLives

Yn ogystal, yn ôl briffiad diweddaraf Uned Atal Trais Cymru, mae trais yn erbyn pobl hŷn wedi parhau i godi ledled Cymru. Fodd bynnag, nododd yr adroddiad nad oedd pob heddlu yn adrodd y setiau data llawn. Er ein bod yn credu'n sylfaenol nad oes rhaid i oroeswr adrodd i'r heddlu os yw'n dewis peidio â gwneud, mae cael y setiau data llawn yn gallu bod yn ffordd i alluogi gwasanaethau i gynllunio ymatebion yn briodol. Mae'r diffyg data yn golygu bod tybiaethau anghywir yn cael eu gwneud wrth gomisiynu.

Gall goroeswyr o'r gymuned LHDTC+ brofi ynysu ychwanegol. Canfu Galop, elusen sy'n ceisio cefnogi goroeswyr cam-drin a thrais LHDTC+, nad oedd 61% o oroeswyr yn ceisio cymorth gan wasanaethau yn dilyn achos penodol o gam-drin gan aelod o'r teulu neu bartner/cynbartner.[30] Roedd 41% o'r rheini nad oedden nhw'n ceisio cymorth yn dweud nad oedden nhw'n gwybod bod unrhyw gymorth ar gael.

Mae'n amlwg fod angen gwneud mwy i sicrhau bod goroeswyr sy'n wynebu nifer o anghydraddoldebau cyfunol yn cael cydraddoldeb mynediad at gymorth. Fodd bynnag mae diffyg cyllid gan ac ar gyfer i sefydliadau arbenigol yn gallu golygu bod darparwyr gwasanaethau gan ac ar gyfer yn ei chael yn anodd delio â'r galw.



30 Galop_A4_IsolatedPlace_Report_2023_Final.pdf



# Argymhellion

- Cynnydd yn y gyllideb VAWDASV sy'n adlewyrchiad cywir o chwyddiant a'r argyfwng costau byw y mae gwasanaethau yn eu hwynebu.
- Dull systemau cyfan ar gyfer comisiynu gwasanaethau addas sy'n diwallu anghenion amrywiol goroeswyr.
- Ymrwymiad i ddarparu modd i oroeswyr fynd i'r afael ag argyfyngau beth bynnag yw eu statws economaidd.
- Ymrwymiad trawsbleidiol a llywodraethol i ymyrraeth gynnar ac atal sy'n edrych ar raglenni fel Newid sy'n Para i addysgu, codi ymwybyddiaeth ac ennyn cyfranogiad cymunedau.
- Cylchoedd cyllid hirach sy'n rhoi cefnogaeth briodol i'r gwaith sy'n cael ei wneud i ddileu VAWDASV yn cynnwys cynnydd cyfnodol oherwydd chwyddiant.
- Mwy o hyblygrwydd o fewn y cyllid i alluogi gwasanaethau i ddarparu cymorth a gaiff ei arwain gan anghenion a'i lywio gan drawma i'r holl oroeswyr.
- Eithriad i Lochesi dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru).
- Dull croestoriadol wedi'i deilwra i bob ymateb a chyllid.
- Sicrhau bod hyfforddiant priodol, cyson yn cael ei gyflwyno er mwyn sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn deall eu cyfrifoldebau dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â goroeswyr Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus.

# Casgliad

Heb fabwysiadu dull systemau cyfan, gyda'r holl sefydliadau ac adrannau'n gweithio gyda'i gilydd, mae'n amlwg na fyddwn ni'n gweld diwedd cynaliadwy i drais yn erbyn menywod a merched. Mae pob goroeswr yn wahanol. Mae gan bob goroeswr brofiadau amlweddog sy'n bwydo i'r cymorth sydd ei angen. Heb ymrwymiad gan y gwasanaethau statudol i ymgysylltu'n ystyrlon a chydweddu eu harferion gydag egwyddorion a arweinir gan anghenion, eu llywio gan drawma gyda'r goroeswr yn ganolog, bydd y rhwystrau hyn at gael cymorth yn parhau, gan adael goroeswyr mewn argyfwng, a'r gwasanaethau trydydd sector wedi'u llethu.

Os na fydd gwasanaethau statudol yn ymgysylltu i ddiwallu'r anghenion hyn, bydd y rhwystrau at gael cymorth yn parhau. Er gwaethaf pob ymdrech a wneir, ni all y trydydd sector barhau i ddiwallu anghenion goroeswyr na chânt eu diwallu ar hyn o bryd yng Nghymru.

Mae gwasanaethau lloches yn gwneud popeth yn eu gallu i lenwi'r bwlch mewn system nad yw'n addas i'r diben. Mae'r straen presennol yn bygwth cynnydd gan fod gwasanaethau cymorth heb gyllid digonol yn brwydro i ddiwallu'r galw cynyddol.

Er bod adduned Llywodraeth y DU i haneru trais yn erbyn menywod a merched yn ymrwymiad gobeithiol, mae'r rhaid cael dull gweithredu cynhwysfawr a pharhaus os yw'n mynd i lwyddo. Rhaid i hyn gynnwys pob profiad o drais, sicrhau cyllid digonol a phriodol a chynnwys cydlynu a chydweithio ar draws sefydliadau statudol ac anstatudol. Ar gyfer cyflawni'r adduned hon mae angen buddsoddiad gwleidyddol ac ariannol i lunio ymateb cynaliadwy, unedig sydd wir yn cefnogi pob goroeswr a gwasanaeth cymorth. Dim ond pan fydd hynny'n digwydd y byddwn ni'n gallu cymryd camau ystyrlon at Gymru sy'n rhydd rhag trais yn erbyn menywod a merched.

Yn ogystal, bydd y cynnydd mewn cyfraniadau yswiriant gwladol a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn cael effaith sylweddol ar gyllidebau'r trydydd sector. Gyda Changhellor y DU eisoes wedi diystyru eithriad, mae'n hanfodol fod Llywodraeth Cymru'n ystyried ac yn lliniaru'r cynnydd hwn wrth edrych ar y cyllid a gaiff ei ddarparu i'r sector. Heb y cyllid ychwanegol i dalu'r cynnydd yn y cyfraniadau yswiriant gwladol, mae gwasanaethau arbenigol yn wynebu cyfyngiadau ariannol pellach fydd yn anochel yn effeithio ar eu gallu i ddarparu cymorth hanfodol i oroeswyr sy'n achub bywydau.

Hoffai Cymorth i Ferched Cymru ddiolch i'r Aelod-Sefydliadau anhygoel sydd wedi cyfrannu dirnadaeth amhrisiadwy i'r adroddiad hwn yn ogystal â'r gwaith maen nhw'n ei wneud 365 diwrnod y flwyddyn i gefnogi goroeswyr ledled Cymru.

Dylai unrhyw un y mae'r mathau hyn o drais a cham-drin wedi effeithio arnyn nhw allu cael help a chymorth pan fydd angen a dylid trin pob achos yn ddifrifol. Mae Llinell Gymorth Byw Heb Ofn ar gael 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos i fenywod, plant a dynion sy'n profi cam-drin domestig, trais rhywiol neu fathau eraill o drais yn erbyn menywod.

Ffôn: 0808 80 10 800

Ebost: info@livefearfreellinell gymorth.Cymru

Neges destun: 07860 077333

Sgwrsio gwe: ewch i https://www.llyw.cymru/byw-heb-ofn i ddefnyddio'r gwasanaeth sgwrsio gwe.






Cymorth i Ferched Cymru

Tŷ Pendragon, Caxton Place,
Pentwyn, Caerdydd, CF23 8XE

02920 541 551

info@welshwomensaid.org.uk

Dilynwch ni:

@welshwomensaid

www.welshwomensaid.org.uk



Mae Cymorth i Ferched Cymru yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, rhif 1140962 a yn gwmni cyfyngedig trwy warant sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr, rhif 07483469.


Llinell Gymorth Byw Heb Ofn
Live Fear Free Helpline
**0808 80 10 800**
ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email

**Cymorth i Ferched Cymru**
Welsh Women's Aid
**Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf**
Putting Women & Children First